Cyllid & Thollau EM

# Nodiadau: Hunangyflogaeth (byr)

Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2021 i 5 Ebrill 2022 (2021-22)

## Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i lenwi tudalennau Hunangyflogaeth (byr) eich Ffurflen Dreth

Llenwch y tudalennau 'Hunangyflogaeth (byr)' os oedd eich trosiant, gan gynnwys unrhyw daliadau trethadwy drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws, yn llai nag £85,000 (neu y byddai wedi bod petaech chi wedi masnachu am flwyddyn gyfan). Darllenwch 'Lwfans incwm masnachu' isod os oedd yn £1,000 neu lai.

### Gwirio a oes yn dal angen i chi lenwi Ffurflen Dreth

Os nad ydych yn credu bod angen i chi lenwi Ffurflen Dreth ar gyfer y flwyddyn hon, ewch i www.gov.uk/check-if-you-need-a-tax-return

Os nad oes angen i chi lenwi Ffurflen Dreth, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni erbyn 31 Ionawr 2023 er mwyn osgoi cosbau.

### Taliadau drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws

Mae'n rhaid i chi gynnwys symiau unrhyw daliadau trethadwy a gawsoch drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws, yn amodol ar yr arweiniad pellach yn y nodiadau hyn.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS)
- Cynllun Cadw Swyddi yn sgil Coronafeirws (CJRS)
- Cynllun Bwyta Allan i Helpu Allan
- unrhyw gynllun cymorth perthnasol arall gan CThEM yn sgil coronafeirws
- taliadau yr oedd gennych hawl i'w cael gan awdurdodau lleol neu weinyddiaethau datganoledig

> I gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau cymorth yn sgil coronafeirws, ewch i www.gov.uk/guidance/reporting-coronavirus-covid-19-grants-and-support-payments.cy

**Dylech gynnwys taliadau SEISS ym mlwch 27.1, a dylech gynnwys unrhyw daliadau cymorth eraill yn sgil coronafeirws ym mlwch 10.**

### Taliadau cynllun cymorth yn sgil coronafeirws a hawliwyd yn anghywir

Os cawsoch daliad nad oedd gennych hawl iddo – a hynny drwy SEISS, CJRS, y Cynllun Bwyta Allan i Helpu Allan, neu unrhyw gynllun cymorth perthnasol arall gan CThEM yn sgil coronafeirws – a'ch bod heb ei ad-dalu'n wirfoddol i CThEM neu'ch bod heb gael asesiad oddi wrth swyddog CThEM mewn perthynas â'r taliad a hawliwyd yn anghywir, nodwch y symiau a hawliwyd yn anghywir ar dudalen TR 5 y brif Ffurflen Dreth (SA100).

### Lwfans incwm masnachu

Mae cyfanswm derbynebau o hunangyflogaeth ac incwm amrywiol (gweler blwch 17 'Incwm trethadwy arall' ar dudalen TRG 8 nodiadau'r Ffurflen Dreth) hyd at £1,000 wedi'u heithrio rhag treth, ac nid oes angen rhoi gwybod amdanynt ar Ffurflen Dreth oni bai eu bod wedi dod oddi wrth barti cysylltiedig neu eu bod yn cynnwys grant SEISS.

Darllenwch dudalen TRG 2 nodiadau'r Ffurflen Dreth i wirio eich bod yn gymwys ar gyfer y lwfans incwm masnachu.

Os ydych yn hawlio'r lwfans incwm masnachu, ni allwch ddidynnu unrhyw dreuliau caniataol na hawlio unrhyw lwfansau eraill.

Os nad ydych am hawlio'r lwfans oherwydd bod eich treuliau caniataol yn uwch na'ch trosiant ac rydych am hawlio rhyddhad am y golled - cyfrifwch eich elw trwy ddidynnu'ch treuliau caniataol a'ch lwfansau cyfalaf o'ch trosiant. Os ydych yn gwneud hyn, peidiwch â llenwi blwch 10.1.

Os, ar ôl darllen tudalen TRG 2, yr ydych yn penderfynu llenwi tudalennau 'Hunangyflogaeth (byr)' oherwydd:

- rydych yn disgwyl i'ch trosiant fod yn fwy na £1,000 yn y flwyddyn dreth nesaf, llenwch flychau 1 i 8 yn unig
- rydych am dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 (CYG) yn wirfoddol er mwyn cronni hawl i fudd-daliadau cyfraniadol megis Pensiwn y Wladwriaeth, llenwch flychau 1 i 8 a rhowch 'X' ym mlwch 36
- rydych am gadw'ch cofnod o hunangyflogaeth, er enghraifft er mwyn cefnogi cais am Lwfans Mamolaeth, llenwch flwch 1 yn unig
- hoffech hawlio Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth ar sail eich cofnod o incwm o hunangyflogaeth, llenwch flwch 1, blwch 9, blwch 10.1, blwch 21, blwch 28 a blwch 31
- rydych yn is-gontractwr ac am hawlio'r dreth a ddidynnwyd o dan Gynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS), llenwch flychau 1 i 8 a blwch 38

Os oedd cyfanswm eich derbynebau o'ch holl hunangyflogaeth ac incwm amrywiol dros £1,000 neu ei fod yn cynnwys grant SEISS, llenwch y tudalennau 'Hunangyflogaeth (byr)' drwy naill ai:

- hawlio'r lwfans newydd ym mlwch 10.1 yn erbyn cyfanswm eich derbynebau o hunangyflogaeth - os ydych yn hawlio'r lwfans incwm o eiddo, ni allwch ddidynnu unrhyw dreuliau caniataol na hawlio unrhyw lwfansau eraill. Ni allwch hawlio'r lwfans hwn os yw'ch derbynebau'n deillio o barti cysylltiedig
- cyfrifo eich elw masnachu trwy ddidynnu treuliau a lwfansau caniataol - os gwnewch hyn, ni allwch hawlio'r lwfans incwm masnachu

At y diben hwn, mae 'cyfanswm y derbynebau o hunangyflogaeth' yn cynnwys unrhyw gofnodion ym mlwch 9, blwch 10, blwch 26 (Taliadau mantoli) a blwch 27 (Nwyddau a gwasanaethau at eich defnydd eich hun), ond nid ydynt yn cynnwys blwch 27.1 (grant SEISS).

Gellir rhannu'r lwfans incwm masnachu o hyd at £1,000 ar draws mwy nag un busnes ac yn erbyn incwm amrywiol (gweler blwch 17 'Incwm trethadwy arall' ar dudalen TRG 8 nodiadau'r Ffurflen Dreth).

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am y lwfans incwm masnachu, ewch i www.gov.uk/guidance/tax-freeallowances-on-property-and-trading-income

Bydd rhaid i chi lenwi'r tudalennau 'Hunangyflogaeth' os yw'r canlynol yn berthnasol:

- mae'ch busnes yn fwy cymhleth, neu mae'ch trosiant am y flwyddyn, gan gynnwys unrhyw daliadau trethadwy drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws, yn £85,000 neu fwy
- rydych wedi newid eich dyddiad cyfrifyddu
- nid yw'ch cyfnod o hunangyflogaeth, a elwir y cyfnod sail, yr un peth â'ch cyfnod cyfrifyddu, ac mae un neu ddau o'r canlynol yn berthnasol
  - — mae'r incwm ar gyfer y cyfnod sail yn fwy na £1,000
  - — cawsoch grant SEISS
- mae gennych incwm addasiad oherwydd eich bod wedi newid eich sail cyfrifyddu
- daeth eich busnes i ben cyn 6 Ebrill 2022 ac mae rhyddhad gorgyffwrdd yn ddyledus
- mae angen i chi addasu unrhyw elw sy'n agored i gyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 4, megis cael taliadau cymorth hunanynysu oherwydd coronafeirws
- roeddech o fewn y rhaglen Rheoli Diffygdalwyr Difrifol (MSD) yn ystod y flwyddyn

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am daliadau cymorth yn sgil hunanynysu, ewch i www.gov.uk/guidance/how-to-reportself-isolation-support-payments

## Llenwi'r tudalennau Hunangyflogaeth (byr)

Mae'n bwysig eich bod yn cadw cofnodion o incwm a threuliau eich busnes (arian a gafwyd neu a dalwyd os ydych yn defnyddio'r sail arian parod – gweler blwch 8) ac unrhyw dreth rydych wedi ei thalu yn ystod y flwyddyn. Bydd angen y rhain arnoch er mwyn eich helpu i lenwi eich Ffurflen Dreth neu i ateb unrhyw gwestiynau a all fod gennym.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am y cofnodion sydd angen i chi eu cadw, ewch i www.gov.uk/self-employed-records

Os nad yw'n bosibl i chi roi eich ffigurau terfynol i ni erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, dylech gynnwys ffigurau dros dro, ond dylech ond llenwi blychau 1, 5, 9, 10, 21 neu 22, 27.1, 28 a 31 neu 32. Yn ogystal, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yn 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth pam eich bod wedi defnyddio symiau dros dro a phryd yr ydych yn disgwyl rhoi eich ffigurau terfynol i ni. Gadewch bob blwch arall yn wag.

Peidiwch ag anfon unrhyw dderbynebau, cyfrifon neu waith papur gyda'ch Ffurflen Dreth, oni bai y byddwn yn gofyn amdanynt.

### Eich enw a Chyfeirnod Unigryw y Trethdalwr

Os ydych wedi argraffu copi o'r tudalennau 'Hunangyflogaeth (byr)' o'r wefan, llenwch eich enw a Chyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) yn y blychau ar frig y ffurflen. Cewch hyd i'ch UTR ar unrhyw lythyron oddi wrthym ynglŷn â'ch Hunanasesiad.

Os na allwch ddod o hyd iddo, gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900 neu ewch i www.gov.uk/dod-o-hyd-i-utr-sydd-ar-goll.

| Eich enw | Eich Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) |
|---|---|
| Paul Smith | 1 3 5 7 9 2 4 6 8 0 |

Enghraifft o flychau enw ac UTR wedi'u llenwi

## Manylion y busnes

### Blwch 1 Disgrifiad o'r busnes

Rhowch wybod i ni ym mlwch 1 beth yw eich math o fusnes. Os ydych yn Ofalwr Maeth neu'n Ofalwr Cysylltu Bywydau rhowch 'Gofalwr Cymwys' ym mlwch 1.

Os ydych yn cael incwm o osod llety wedi'i ddodrefnu yn eich cartref, mae eich derbynebau gros (gan gynnwys unrhyw daliadau mantoli) yn llai na £7,500 (neu £3,750 os y'u rhennir) a'ch bod am ddefnyddio'r cynllun Rhentu Ystafell, rhowch Rhentu Ystafell ym mlwch 1 a gadewch weddill y blychau'n wag.

Os yw eich derbynebau gros (gan gynnwys unrhyw daliadau mantoli) o osod llety wedi'i ddodrefnu yn eich cartref yn fwy na'r terfyn o £7,500 (neu £3,750) a'ch bod am ddefnyddio'r cynllun Rhentu Ystafell:

- ysgrifennwch 'Rhentu Ystafell' ym mlwch 1
- llenwch flychau 2 i 8
- rhowch eich derbynebau gros (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd) ym mlwch 9
- rhowch £7,500 (neu £3,750) ym mlwch 19
- rhowch unrhyw daliadau mantoli ym mlwch 26

Ni allwch hawlio treuliau, lwfansau cyfalaf na'r lwfans incwm masnachu o dan y cynllun Rhentu Ystafell.

> I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun Rhentu Ystafell, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS223' neu ewch i www.gov.uk/renting-out-a-property/paying-tax

### Blwch 4 Os ydych yn ofalwr maeth neu'n ofalwr cysylltu bywydau

Rhowch 'X' yn y blwch dim ond os yw hyn yn gymwys i chi.
Os yw eich swm cymwys yn fwy na chyfanswm eich derbynebau gofal cymwys:

- rhowch '0' (sero) ym mlwch 31
- peidiwch â llenwi gweddill y ffurflen SA103S

Os yw eich derbynebau gofal cymwys yn fwy na'ch swm cymwys ac rydych yn defnyddio'r dull syml er mwyn cyfrifo eich elw:

- llenwch flychau 2 i 8 (os ydynt yn berthnasol i chi)
- rhowch gyfanswm eich derbynebau ym mlwch 9
- rhowch eich swm cymwys ym mlwch 20
- llenwch flychau 21, 28 a 31

Bydd Taflen Gymorth 236, *'Qualifying care relief: foster carers and shared life carers'*, yn eich helpu i lenwi'r tudalennau 'Hunangyflogaeth (byr)'.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS236'.

### Blwch 5 Os dechreuodd eich busnes ar ôl 5 Ebrill 2021, nodwch y dyddiad dechrau

Os oeddech wedi dechrau gweithio i chi eich hun rhwng 6 Ebrill 2021 a 5 Ebrill 2022, rhowch y dyddiad dechrau ym mlwch 5.

Os nad ydych eisoes wedi cofrestru ar gyfer hunangyflogaeth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 2, rhaid i chi wneud hynny nawr.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/cofrestru-ar-gyfer-a-chyflwynoch-ffurflen-dreth-hunanasesiad/hunangyflogedig

### Blwch 6 Os daeth eich busnes i ben cyn 6 Ebrill 2022, nodwch y dyddiad masnachu terfynol

Os gwnaethoch orffen weithio ar liwt eich hun rhwng 6 Ebrill 2021 a 5 Ebrill 2022, rhowch y dyddiad hwnnw ym mlwch 6 ac nid eich dyddiad diwedd blwyddyn. Rhowch wybod i ni cyn gynted â phosib fel nad ydych yn talu gormod o dreth neu CYG Dosbarth 2.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/stop-being-self-employed

Os credwch fod hawl gennych i gael rhyddhad gorgyffwrdd gan nad 5 Ebrill 2022 oedd eich dyddiad cyfrifyddu, llenwch y tudalennau 'Hunangyflogaeth (llawn)'.

### Blwch 7 Y dyddiad y caewyd eich llyfrau neu eich cyfrifon

Mae'n arferol i gau eich llyfrau ar yr un dyddiad bob blwyddyn. Er enghraifft, os oeddech wedi cau eich llyfrau ar 5 Ebrill 2022, nodwch 05 04 2022 ym mlwch 7. Os yw'r dyddiad ar ôl 5 Ebrill 2022, mae'n rhaid i chi lenwi'r tudalennau 'Hunangyflogaeth (llawn)'.

### Blwch 8 Y sail arian parod

Rhowch 'X' ym mlwch 8 os gwnaethoch ddefnyddio'r sail arian parod.

Mae'r sail arian parod yn ffordd haws o gyfrifo elw neu golled eich busnes. Rydych yn cyfrifo'r holl incwm a gafwyd (eich trosiant) ac yn didynnu unrhyw dreuliau caniataol a dalwyd yn ystod eich cyfnod cyfrifyddu. Peidiwch â chynnwys arian sydd arnoch neu sy'n ddyledus i chi ar eich dyddiad diwedd blwyddyn.

Ni all rhai busnesau ddefnyddio'r sail arian parod.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/simpler-income-tax-cash-basis

Os defnyddioch y sail arian parod y flwyddyn ddiwethaf, dylech ei defnyddio eto y flwyddyn hon oni bai nad yw'n gweddu bellach, er enghraifft rydych am hawlio rhyddhad colled yn erbyn eich incwm.

Os ydych yn isgontractiwr yn y diwydiant adeiladu, eich incwm yw'r swm llawn cyn didyniadau contractwr.

Cewch ddechrau defnyddio'r sail arian parod y flwyddyn hon os:

- mai hon yw eich blwyddyn gyntaf mewn busnes, neu
- defnyddiwyd cyfrifyddu traddodiadol gennych y flwyddyn ddiwethaf

Os byddwch yn newid sail y flwyddyn hon, o'r sail arian parod i'r sail cyfrifyddu traddodiadol, neu o gyfrifyddu traddodiadol i'r sail arian parod, efallai bydd angen i chi wneud addasiad trawsnewidiol.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS222'.

## Incwm busnes

### Blwch 9 Eich trosiant (peidiwch â chynnwys grantiau'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS) yn y blwch hwn, rhowch nhw ym mlwch 27.1 ar dudalen 2)

Os ydych yn defnyddio cyfrifyddu traddodiadol, rhowch gyfanswm yr incwm a enillwyd gan eich busnes ym mlwch 9. Dylech gynnwys:

- pob taliad – arian parod, cerdyn, siec neu unrhyw ddull arall
- ffioedd, cildyrnau a chomisiynau
- unrhyw daliadau 'ar ffurf nwyddau' – hynny yw, nwyddau neu wasanaethau a gafwyd am waith a wnaed neu am nwyddau a werthwyd
- arian sy'n ddyledus i chi am waith sydd eisoes wedi'i wneud

Peidiwch â chynnwys taliadau cymorth yn sgil coronafeirws yn y blwch hwn (gweler blwch 10 a blwch 27.1).

Os ydych yn defnyddio'r sail arian parod yn unig, dylech ond gynnwys yr incwm a gawsoch.

Os yw'ch trosiant hyd at £1,000, darllenwch 'Lwfans incwm masnachu' ar dudalen SESN 1.

Os ydych yn is-gontractwr, sicrhewch eich bod yn cynnwys y swm llawn ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu (cyn unrhyw ddidyniadau'r Cynllun Diwydiant Adeiladu (CIS) a wnaed gan gontractwyr).

### Blwch 10 Unrhyw incwm arall y busnes (peidiwch â chynnwys SEISS ond dylech gynnwys taliadau cymorth eraill yn sgil COVID megis CJRS)

Peidiwch â chynnwys ym mlwch 10 daliadau drwy'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS) – gweler blwch 27.1.

Mae taliadau drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws yn drethadwy, ac maent yn cynnwys taliadau drwy'r Cynllun Cadw Swyddi yn sgil Coronafeirws (CJRS), y Cynllun Bwyta Allan i Helpu Allan, cynlluniau cymorth hunanynysu, unrhyw gynllun cymorth perthnasol arall gan CThEM yn sgil coronafeirws, a thaliadau yr oedd gennych hawl i'w cael gan awdurdodau lleol neu weinyddiaethau datganoledig.

Os cawsoch daliadau drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws, dylech gynnwys ym mlwch 10 y swm a gawsoch.

Os ydych wedi cael asesiad oddi wrth swyddog CThEM mewn perthynas â thaliad drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws a hawliwyd yn anghywir, dylech gynnwys ym mlwch 10 y swm a gadwyd gennych yn unig.

Peidiwch â chynnwys ym mlwch 10 unrhyw swm sydd wedi'i asesu ac sy'n arwain at ad-dalu taliadau drwy gynlluniau cymorth yn sgil coronafeirws nad oedd gennych hawl iddynt.

Os cawsoch daliadau drwy'r cynllun Bwyta Allan i Helpu Allan a'ch bod wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, dylech hepgor TAW o'r swm rydych yn ei gynnwys ym mlwch 10.

Peidiwch â chynnwys taliadau CJRS a gafwyd fel cyflogai tra oeddech ar ffyrlo.

Os cawsoch daliad nad oedd gennych hawl iddo – a hynny drwy y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth, CJRS, y Cynllun Bwyta Allan i Helpu Allan, neu unrhyw gynllun cymorth perthnasol arall gan CThEM yn sgil coronafeirws – a'ch bod heb ei ad-dalu'n wirfoddol i CThEM neu'ch bod heb gael asesiad oddi wrth swyddog CThEM mewn perthynas â'r taliad a hawliwyd yn anghywir, nodwch y swm a hawliwyd yn anghywir ar dudalen TR 5 y brif Ffurflen Dreth (SA100).

Dylech hefyd gynnwys incwm sy'n cyfrif fel incwm masnachu ond sydd heb ei gynnwys yn eich trosiant. Er enghraifft, incwm drwy osod rhan o eiddo eich busnes, taliadau a gewch am yr hawl i groesi eich tir, premiymau gwrthdro nad ydynt hyd fraich a symiau sy'n cael eu trin fel elw gan yr incwm masnachu a ddarperir drwy reolau trydydd parti.

Peidiwch â chynnwys incwm o fasnach neu fusnes arall, mae hyn yn mynd ar dudalennau 'Hunangyflogaeth' ar wahân.

### Blwch 10.1 Lwfans incwm masnachu

Darllenwch 'Lwfans incwm masnachu' ar dudalen SESN 1 cyn llenwi blwch 10.1. Os oes gennych fwy nag un hunangyflogaeth (neu incwm amrywiol (gweler blwch 17 'Incwm trethadwy arall' ar dudalen TRG 8 nodiadau'r Ffurflen Dreth)), ni all y cyfanswm a hawliwyd fod yn fwy na £1,000.

Ni allwch hawlio'r lwfans incwm masnachu i wneud colled.

## Treuliau busnes caniataol

Mae treuliau'n amrywio o fusnes i fusnes. Mae'r treuliau caniataol yn cynnwys cyflogau, rhent, golau, post, galwadau ffôn a chostau moduro megis tanwydd ac yswiriant. Rhestrir treuliau busnes caniataol yn Nhaflen Gymorth 222, '*How to calculate your taxable profit*'.

Caniateir rhai treuliau yn rhannol yn unig. Er enghraifft, gallwch hawlio dim ond y gyfran fusnes o'r gost o ddefnyddio eich car eich hun neu ddefnyddio ystafell yn eich cartref fel eich swyddfa.

Nid yw costau gwesteia, dibrisiad cyfarpar, eich cyflog eich hun, cyflogau, tyniadau, cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn dreuliau caniataol.

Os ydych yn hawlio lwfans incwm masnachu, ni allwch ddidynnu unrhyw dreuliau caniataol na hawlio unrhyw lwfans arall ar yr incwm hwn.

**Os ydych yn defnyddio cyfrifyddu traddodiadol**
Peidiwch â chynnwys y gost o brynu cerbyd neu gyfarpar arall

**Os ydych yn defnyddio'r sail arian parod**
Mae treuliau caniataol yn cynnwys taliadau am wariant cyfalaf, oni bai bod y gwariant yn un na chaniateir yn benodol. Gallwch dim ond hawlio hyd at £500 o daliadau llog a chostau eraill ar gyfer benthyciadau arian parod.

> I gael rhagor o wybodaeth am wariant cyfalaf na chaniateir, ewch i www.gov.uk/cymraeg a chwilio am 'HS222'.

## Treuliau symlach

Mae treuliau symlach yn defnyddio cyfraddau unffurf, yn lle treuliau busnes gwirioneddol.

Gallwch ddefnyddio treuliau symlach i gyfrifo:
- costau busnes ar gyfer cerbydau
- defnydd o'ch cartref ar gyfer busnes neu'r addasiad ar gyfer ddefnydd preifat o leoliad busnes fel cartref (ddim y ddau)

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/simpler-income-tax-simplified-expenses

Rhaid i chi gyfrifo pob traul arall yn y modd arferol.

### Blychau 11 i 20

Llenwch flychau 11 i 19 a rhowch y cyfanswm ym mlwch 20.

Os oedd eich trosiant blynyddol yn llai na £85,000, cewch roi cyfanswm eich treuliau ym mlwch 20. Os ydych yn hawlio lwfans incwm masnachu ym mlwch 10.1, peidiwch â llenwi blychau 11 i 20. Dylech gynnwys ym mlwch 13 gyflogau a ariannwyd drwy'r Cynllun Cadw Swyddi yn sgil Coronafeirws ac a dalwyd i gyflogeion.

> I gael rhagor o wybodaeth am dreuliau y gallwch eu hawlio, treuliau wedi'u symleiddio a llenwi blychau 11 i 20, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS222'.

## Elw neu golled net

### Blwch 21 Elw net

Ychwanegwch flychau 9 a 10 at ei gilydd. Os yw'r cyfanswm yn fwy na'r ffigur ym mlwch 20, nodwch y gwahaniaeth ym mlwch 21.

### Blwch 22 Colled net

Ychwanegwch flychau 9 a 10 at ei gilydd. Os yw'r cyfanswm yn llai na'r ffigur ym mlwch 20, nodwch y gwahaniaeth ym mlwch 22.

## Lwfansau treth ar gyfer adeiladau, cerbydau a chyfarpar penodol (lwfansau cyfalaf)

### Blychau 23 i 26

Gallwch hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer costau prynu a gwella cyfarpar megis:
- faniau a cheir
- offer a chyfrifiaduron
- silffoedd, dodrefn a gosodiadau trydanol
- strwythurau ac adeiladau penodol

Bydd y math o lwfans cyfalaf a'r swm y gallwch ei hawlio yn dibynnu ar yr asedion sydd gennych ac amgylchiadau eraill, er enghraifft, mae rheolau arbennig ar gyfer ceir.

Ni allwch hawlio lwfansau cyfalaf os ydych yn hawlio'r lwfans incwm masnachu (ym mlwch 10.1) neu'n defnyddio'r sail arian parod. Yr unig eithriad i'r rheini sy'n defnyddio'r sail arian parod (ac sydd ddim yn hawlio'r lwfansau incwm masnachu) yw ceir.

Os ydych wedi hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer car a ddefnyddir yn eich busnes, gallwch barhau i hawlio'r lwfans ym mlychau 24 a 25. Dylech gynnwys ran o'r costau redeg gwirioneddol sy'n ymwneud â'r busnes fel treuliau caniataol ym mlwch 12. Ni allwch ddefnyddio cyfraddau unffurf.

Os nad ydych erioed wedi hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer y car, gallwch ddewis i ddefnyddio'r gyfradd unffurf, neu hawlio lwfansau cyfalaf.

Os ydych wedi hawlio'r lwfans incwm masnachu ym mlwch 10.1, peidiwch â llenwi blychau 23 i 25.2.

> I gael rhagor o wybodaeth am lwfansau cyfalaf, ewch i www.gov.uk/capital-allowances

### Blwch 23 Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB)

Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB) 100%.

Lwfans ar wariant cymwys os gwnaethoch brynu cyfarpar (ond nid ceir) yn ystod y flwyddyn.

> I gael rhagor o wybodaeth am Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB) a'r uchafswm y gallwch ei hawlio, ewch i www.gov.uk/lwfansau-cyfalaf/lwfans-buddsoddi-blynyddol

Pan ydych yn defnyddio cyfarpar at ddibenion busnes yn ogystal â dibenion preifat, mae'n rhaid i chi ostwng y LBB a hawliwyd gan y gyfran ar gyfer defnydd preifat.

> **Enghraifft**
>
> Mae Gwilym yn prynu offer am £5,000 a fan sy'n costio £10,000. Caiff yr offer eu defnyddio ar gyfer y busnes yn unig. Fodd bynnag, defnyddia Gwilym y fan 60% o'r amser ar gyfer busnes a 40% ar gyfer moduro preifat, felly mae'n rhaid iddo gyfyngu ar swm y Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB) y mae'n ei hawlio ar y fan i adlewyrchu ei ddefnydd preifat. Mae ganddo 2 gronfa, un i'r fan (oherwydd ei ddefnydd preifat ohono) ac un ar gyfer yr offer (a ddefnyddir yn gyfan gwbl ar gyfer y busnes). Yr LBB y gall ei hawlio ar gyfer y fan yw £6,000 (£10,000 llai 40% am ddefnydd preifat).
>
> Cyfanswm hawliad Gwilym ar gyfer LBB yw £11,000 (£5,000 ar gyfer yr offer, yn ogystal â £6,000 ar gyfer y fan). Ar ôl iddo hawlio LBB bydd ganddo 2 gronfa gwariant. Bydd y gweddill yn y ddwy gronfa yn ddim.
>
> Os gwnaeth Gwilym hawlio LBB ar gyfer eitemau, fel offer neu fan, a'i fod yn gwerthu'r eitemau hynny yn ddiweddarach (yn eu gwaredu), efallai y bydd angen iddo ad-dalu rhywfaint o'i lwfans. Gelwir hyn yn tâl mantoli.

> I gael help gyda lwfansau cyfalaf a chostau mantoli, ewch i www.gov.uk/business-tax/capital-allowances

### Blwch 24 Lwfans ar gyfer balans bychan o wariant pan na chafwyd rhyddhad

Os yw balans y gwariant cymwys yn y brif gronfa neu'r gronfa gyfradd arbennig (gweler 'Sut i gyfrifo balans cronfa lwfansau cyfalaf') yn £1,000 neu lai, gallwch hawlio lwfans cronfeydd bychain hyd at y swm llawn, yn hytrach na hawlio'r Lwfans ar Bapur. Ni allwch hawlio'r ddau.

### Blwch 24.1 Lwfans car ag allyriadau sero

Hawliwch y lwfans blwyddyn gyntaf o 100% (y gost lawn) ar gyfer unrhyw gar newydd a heb ei ddefnyddio, sydd ag allyriadau sero neu sy'n drydanol, yn y blwch hwn.

Os ydych yn defnyddio car y tu allan i'ch busnes, mae'n rhaid i chi hawlio'r gyfran sydd at ddibenion busnes yn unig.

### Blwch 25 Lwfansau cyfalaf eraill

- lwfans blwyddyn gyntaf (LBG) – i weld a allwch hawlio ac, os gallwch, faint, ewch i www.gov.uk/lwfansau-cyfalaf/lwfansau-blwyddyn-gyntaf
- lwfans ar bapur (LAB) 18% ar falans y gwariant ar gyfarpar yn y brif gronfa. Bydd y swm na chafwyd rhyddhad ar ei gyfer yn cael ei gario ymlaen i'ch cyfnod nesaf - mae gwariant o'r fath yn cynnwys ceir a brynwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2021 gydag allyriadau CO2 dros 0g/km a ddim mwy na 50g/km
  - Lwfans Ar Bapur (LAB) 6% ar falans y gwariant yn y gronfa gyfradd arbennig – mae gwariant o'r fath yn cynnwys:
    - rhannau penodol o adeiladau megis systemau trydanol
    - ceir a brynwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2021 gydag allyriadau CO2 sy'n fwy na 50g/km

### Sut i gyfrifo balans cronfa lwfansau cyfalaf

Dechreuwch â'r gwariant na chafwyd rhyddhad ar ei gyfer a oedd yn y gronfa ar ddiwedd y cyfnod trethadwy blaenorol. Ychwanegwch balans y gwariant cymwys roedd LBG wedi'i hawlio ar ei gyfer yn y cyfnod trethadwy blaenorol. Ychwanegwch yr holl wariant cymwys ar gyfer y gronfa a gododd yn ystod y cyfnod trethadwy hwn, heblaw am wariant y mae LBG yn cael ei hawlio ar ei gyfer. Didynnwch yr hawliad am LBB. Didynnwch gyfanswm yr holl werthoedd gwaredu (fel arfer, derbynebau) ar gyfer asedion nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y busnes mwyach. Y canlyniad yw balans y gronfa o wariant cymwys.

Os ydych yn defnyddio cyfarpar neu geir at ddibenion busnes yn ogystal â dibenion preifat, mae'n rhaid i chi ostwng y lwfansau a hawliwch gan y gyfran ar gyfer defnydd preifat. Mae'n rhaid i chi hefyd gadw cronfa wariant ar wahân ar gyfer pob un eitem a ddefnyddiwch at ddibenion preifat. Gelwir hyn yn gronfa sengl o asedion. Nid yw'r 'Lwfans ar gyfer balans bychan o wariant pan na chafwyd rhyddhad' yn berthnasol i gronfeydd sengl o asedion.

### Blwch 25.1 Y Lwfans Strwythurau ac Adeiladau

Os ydych yn gymwys i hawlio'r Lwfans Strwythurau ac Adeiladau (SBA) newydd, rhowch swm yr hawliad ym mlwch 25.1 (oni bai eich bod yn hawlio'r gyfradd ychwanegol o SBA ar gyfer safleoedd treth Porthladdoedd Rhydd, os felly rhowch swm yr hawliad ym mlwch 25.2). Os ydych yn hawlio am y tro cyntaf ar gyfer strwythur neu adeilad penodol, defnyddiwch y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', sef blwch 19 ar dudalen 7 eich Ffurflen Dreth, er mwyn cofnodi'r canlynol:

- y dyddiad y daeth yr adeilad i ddefnydd cymwys am y tro cyntaf, neu, os yw'n hwyrach, dyddiad y gwariant cymwys
- cyfanswm y gwariant cymwys

I weld a allwch hawlio, ac os felly faint, ewch i www.gov.uk/guidance/claiming-capital-allowances-for-structures-and-buildings.

### Blwch 25.2 Lwfans Strwythurau ac Adeiladau Porthladdoedd Rhydd

Os ydych yn gymwys i hawlio'r Lwfans Strwythurau ac Adeiladau (SBA) ychwanegol ar gyfer safleoedd Porthladdoedd Rhydd, rhowch swm yr hawliad ym mlwch 25.1. Os ydych yn hawlio am y tro cyntaf mewn perthynas â swm o wariant cymwys, defnyddiwch y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', sef blwch 19 ar dudalen 7 eich Ffurflen Dreth, er mwyn cofnodi'r canlynol:

- y Porthladd Rhydd y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef
- cyfeiriad neu leoliad y strwythur neu adeilad
- y dyddiad y daeth yr adeilad i ddefnydd cymwys am y tro cyntaf neu, os yw'n hwyrach, dyddiad y gwariant cymwys
- cyfanswm y gwariant gymwys
- y dyddiad yr ymrwymwyd i'r contract cyntaf ar gyfer adeiladu

I weld a allwch hawlio, ac os felly faint, ewch i www.gov.uk/guidance/check-if-you-can-claim-enhanced-structures-and-buildings-allowance-relief-in-freeport-tax-sites.

### Blwch 26 Cyfanswm taliadau mantoli

Os gwerthwch eitem rydych wedi hawlio lwfansau cyfalaf ar ei chyfer, ac mae derbyniadau'r gwerthiant neu werth yr eitem yn fwy na gwerth neu gost y gronfa, bydd yn rhaid i chi dalu treth ar y gwahaniaeth (sef 'tâl mantoli').

Rhowch gyfanswm y tâl mantoli ym mlwch 26.

## Cyfrifo eich elw trethadwy

### Blwch 27 Nwyddau a/neu wasanaethau at eich defnydd eich hun

Os byddwch yn cymryd unrhyw nwyddau neu stoc allan o'r busnes, ac rydych yn defnyddio cyfrifyddu traddodiadol y pris gwerthu arferol ym mlwch 27.

Os defnyddiwch y sail arian parod, rhowch y swm nas caniateir (fel arfer, cost y nwyddau neu'r stoc) ym mlwch 27.

Os byddwch yn nodi cost lawn y treuliau ym mlychau 11 i 19, bydd yn rhaid i chi gynnwys unrhyw symiau anghaniataol ym mlwch 27.

### Blwch 27.1 Grant y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth a gafwyd yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2022

Os cawsoch unrhyw daliadau drwy'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS), dylech gynnwys ym mlwch 27.1 y swm roedd gennych hawl iddo.

Os ydych wedi cael asesiad oddi wrth swyddog CThEM mewn perthynas â grant SEISS a hawliwyd yn anghywir, dylech gynnwys ym mlwch 27.1 y swm a gadwyd gennych yn unig.

Peidiwch â chynnwys ym mlwch 27.1 unrhyw swm sydd wedi'i asesu ac sy'n arwain at ad-dalu grant SEISS nad oedd gennych hawl iddo.

Dylech gynnwys ym mlwch 27.1 y swm roedd gennych hawl iddo, ni waeth beth yw dyddiadau cau eich llyfrau neu'ch cyfrifon (ym mlwch 7).

Os yw'r swm roedd gennych hawl iddo ac roeddech wedi'i gael yn ymwneud â hunangyflogaethau lluosog, neu'n ymwneud â'r hunangyflogaeth hon ac un neu fwy o bartneriaethau, dylech gynnwys y swm sy'n ymwneud â'r hunangyflogaeth hon yn unig. Dosrannwch y taliad rhwng yr hunangyflogaethau, neu rhwng yr hunangyflogaeth hon a'r bartneriaeth neu'r partneriaethau, ar sail deg a rhesymol. Dylai cyfanswm yr holl symiau a ddosrannwyd fod yn gyfartal â chyfanswm y grant SEISS roedd gennych hawl iddo ac roeddech wedi'i gael.

> **Enghraifft**
>
> Mae Sam yn driniwr gwallt ac mae hefyd yn bartner mewn partneriaeth. Mae hi'n cael grant SEISS o £4,000, ac yn pennu bod 75% ohono'n ymwneud â'i hunangyflogaeth. Mae'n cynnwys £3,000 ym mlwch 27.1, a £1,000 ym mlwch 9.1 o'i thudalennau 'Partneriaeth'.

Os cawsoch daliad SEISS nad oedd gennych hawl iddo, a'ch bod heb ei ad-dalu'n wirfoddol i CThEM neu'ch bod heb gael asesiad oddi wrth swyddog CThEM mewn perthynas â'r taliad a hawliwyd yn anghywir, nodwch y swm a hawliwyd yn anghywir ar dudalen TR 5 y brif Ffurflen Dreth (SA100).

### Blychau 28 a 31 neu 32

Defnyddiwch y daflen waith canlynol i gyfrifo'r ffigurau ar gyfer blychau 28 a 31 neu 32.

| | | |
|---|---|---|
| Elw net blwch 21 neu golled net blwch 22 | A | £ |
| Ychwanegwch<br>Taliadau mantoli blwch 26 | B | £ |
| Nwyddau a gwasanaethau at eich defnydd eich hun blwch 27 | C | £ |
| Grant SEISS blwch 27.1 | CC | £ |
| Cyfanswm ychwanegwch flychau A, B, C ac CC | D | £ |
| Llai<br>Lwfansau cyfalaf neu lwfans incwm masnachu<br>ychwanegwch flychau 23 i 25.2, neu flwch 10.1 | E | £ |
| Cyfanswm blwch D llai blwch E | F | £ |
| Os yw'r swm yn bositif mae gennych elw net. Copïwch i flwch 28<br>Os yw'r swm yn negyddol mae gennych golled net. Copïwch i flwch 32 | | |
| Llai<br>Colledion a ddygwyd ymlaen blwch 29 - hyd at y swm ym mlwch 28 | G | £ |
| Cyfanswm blwch F llai blwch G | H | £ |
| Ychwanegwch<br>Unrhyw incwm arall y busnes blwch 30 | I | £ |
| Cyfanswm yr elw trethadwy ychwanegwch flychau H ac I - copïwch i flwch 31 | J | £ |

### Blwch 30 Unrhyw incwm arall y busnes nad yw wedi ei gynnwys ym mlwch 9 neu'n blwch 10

Mae hyn yn cynnwys unrhyw incwm arall busnes nad yw'n incwm masnachu.

## Colledion, CYG Dosbarth 2 a CYG Dosbarth 4 a didyniadau CIS

### Blychau 33 i 35 Colledion

Gallwch hawlio rhyddhad treth ar gyfer unrhyw golledion a wnaed gennych. Gall swm y rhyddhad treth yr ydych yn ei hawlio yn erbyn eich incwm gael ei gyfyngu. Os ydych eisoes wedi gwneud hawliad ar gyfer eich colled yn ystod 2021 i 2022, dylech gynnwys y golled ym mlwch 33 neu 34 a rhowch fanylion i ni yn 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

> ℹ I gael gwybodaeth am golledion ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS227'.
>
> I gael gwybodaeth am y Terfyn ar Ryddhad Treth Incwm, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS204'.

### Blwch 33 Colled o'r flwyddyn dreth hon a wrthbwyswyd yn erbyn incwm arall ar gyfer 2021 i 2022

Dylech ond gynnwys colled ar gyfer y flwyddyn dreth hon ym mlwch 33. Os yw'r golled yn fwy na'ch incwm arall (neu os yw'ch incwm yn ddim), rhowch swm eich incwm arall (neu ddim) ym mlwch 33. Gallwch hawlio balans eich colled yn erbyn unrhyw enillion cyfalaf ar gyfer 2021 i 2022, neu llenwch flychau 34 neu 35.

Peidiwch â llenwi blwch 33 os ydych yn defnyddio'r sail arian parod.

### Blwch 34 Colled i'w dwyn yn ôl i flwyddyn flaenorol/flynyddoedd blaenorol i'w gwrthbwyso yn erbyn incwm (neu enillion cyfalaf)

Gallwch gario colledion yn ôl i'w defnyddio yn erbyn:

- incwm ar gyfer y flwyddyn dreth 2020 i 2021 – os yw eich colled yn fwy na'r incwm, gallwch ddefnyddio'r golled sy'n weddill yn erbyn enillion cyfalaf 2020 i 2021. Peidiwch â gwneud yr hawliad hwn os ydych yn defnyddio'r sail arian parod
- incwm yn y 3 blwyddyn flaenorol – dechreuwch gyda'r flwyddyn gynharaf – dylech ond hawlio hwn os bu eich busnes ddechrau ar ôl 5 Ebrill 2018. Peidiwch â gwneud yr hawliad hwn os ydych yn defnyddio'r sail arian parod
- elw'r busnes hwn yn y flwyddyn dreth 2021 i 2022 ac yn y 3 blynedd flaenorol – dechreuwch gyda'r flwyddyn ddiweddaraf – dylech dim ond wneud yr hawliad hwn (ar gyfer rhyddhad colled terfynol) os daeth eich busnes i ben yn y flwyddyn dreth 2021 i 2022 – y colledion y gallwch eu hawlio yw'r colledion a wnaed yn y 12 mis olaf o fasnachu
- elw'r un busnes yn y 3 blwyddyn flaenorol – mae cyfanswm y golled y gellir ei gario yn ôl i flynyddoedd treth 2019 i 2020 a 2018 i 2019 wedi'i gyfyngu i gyfanswm o £2 filiwn ar draws y ddwy flwyddyn dreth (nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol ar gyfer blwyddyn dreth 2020 i 2021); dechreuwch gyda'r flwyddyn ddiweddaraf

Os ydych yn defnyddio'r sail arian parod, yr unig beth y gallwch eu hawlio yw rhyddhad colled terfynol.

Os llenwch flwch 34, rhowch fanylion y swm a hawliwyd ac ar gyfer pa flwyddyn o dan 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am ryddhad colled terfynol, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS227'.

### Blwch 35 Cyfanswm y golled i'w dwyn ymlaen ar ôl pob gwrthbwysiad arall

Cariwch eich colledion nas defnyddiwyd ymlaen i'w gosod yn erbyn unrhyw elw o'r un busnes yn y dyfodol. Os oedd gennych unrhyw golledion o flynyddoedd blaenorol, nad ydych wedi eu defnyddio eisoes, dylech eu cynnwys ym mlwch 35.

Os ydych yn defnyddio'r sail arian parod ac nid ydych wedi hawlio rhyddhad colled terfynol, rhowch eich colled ym mlwch 35.

**Blwch 36  Rhowch 'X' yn y blwch os yw cyfanswm eich elw ar gyfer 2021 i 2022 yn llai na £6,515 ac rydych yn dewis talu CYG Dosbarth 2 yn wirfoddol**

Os yw eich elw trethadwy yn £6,515 neu fwy, rydych yn talu CYG Dosbarth 2 (£3.05 yr wythnos). Os yw eich elw yn llai na £6,515 neu os gwnaethoch golled, gallwch dalu CYG Dosbarth 2 yn wirfoddol er mwyn gwarchod eich Pensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau penodol. Mae'n rhaid i chi fod wedi eich cofrestru'n hunangyflogedig er mwyn talu CYG Dosbarth 2 neu i dalu'n wirfoddol.

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer Hunanasesiad ond ddim wedi eich cofrestru'n hunangyflogedig, ewch i www.gov.uk/mewngofnodi-chyflwynoch-ffurflen-dreth-huanasesiad

Os ydych wedi eich cyflogi ac yn hunangyflogedig, efallai y gallwch dalu swm is o CYG Dosbarth 2 yn ddibynnol ar swm yr Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 rydych yn ei dalu o'ch cyflog.

Mae dal yn rhaid i chi dalu CYG Dosbarth 2 yn ystod seibiant dros dro os ydych yn bwriadu parhau i fod yn hunangyflogedig. Mae hyn yn cynnwys:
- ysgrifenwyr yn ymgymryd ag ymchwil
- cyflogaeth tymor byr
- ar eich gwyliau
- ar wasanaeth rheithgor

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/yswiriant-gwladol/faint-rydych-chin-talu

Rhowch 'X' yn y blwch 36 os ydych am dalu CYG Dosbarth 2 yn wirfoddol. Ni allwch newid eich meddwl ar ôl talu.

Ni allwch dalu CYG Dosbarth 2 yn wirfoddol drwy Hunanasesiad ar ôl 31 Ionawr 2023.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/voluntary-national-insurance-contributions

**Blwch 37  Rhowch 'X' yn y blwch os ydych wedi eich eithrio rhag talu CYG Dosbarth 4**

Nid oes angen i chi dalu CYG Dosbarth 4 os yw'r canlynol yn berthnasol:
- gwnaethoch gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2021
- roeddech o dan 16 oed ar 6 Ebrill 2021
- nid oeddech yn preswylio yn y DU at ddibenion treth yn ystod blwyddyn dreth 2021 i 2022

Rhowch 'X' yn y blwch dim ond os ydych wedi eich eithrio.

> I gael gwybod beth yw'ch oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ewch i www.gov.uk/calculate-state-pension

**Blwch 38  Cyfanswm didyniadau Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) a dynnwyd o'ch taliadau gan isgontractwyr**

Os ydych yn is-gontractwr, ychwanegwch at ei gilydd yr holl ddidyniadau a wnaed gan gontractwyr o 6 Ebrill 2021 i 5 Ebrill 2022. Defnyddiwch y datganiadau a roddwyd i chi gan y contractwyr.

Os nad ydych wedi cael yr holl ddatganiadau CIS sydd eu hangen arnoch gan eich contractwr, ewch i www.gov.uk/what-you-must-do-as-a-cissubcontractor/pay-tax-and-claim-back-deductions i gael gwybod beth sy'n rhaid i chi ei wneud.

Peidiwch ag anfon y rhain gyda'ch Ffurflen Dreth.

Hyd yn oed os ydych eisoes wedi gwneud hawliad am ad-daliad CIS, nodwch y didyniadau ym mlwch 38. Os ydych wedi cael ad-daliad o ddidyniadau CIS, sicrhewch eich bod yn ei gynnwys ym mlwch 1 'Treth wedi'i had-dalu neu wedi'i gwrthbwyso' ar dudalen TR 6 eich Ffurflen Dreth.

Os ydych wedi rhoi unrhyw ffigurau ym mlwch 38, gwiriwch eich bod wedi cynnwys swm llawn yr incwm (cyn tynnu'r didyniad Cynllun Diwydiant Adeiladu) ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu ym mlwch 9 'Eich trosiant'.

## Rhagor o gymorth os bydd ei angen arnoch

I gael copïau o unrhyw Ffurflenni Treth neu daflenni cymorth, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad

Gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900 i gael help gyda'ch Ffurflen Dreth.

> Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys arweiniad mewn Braille, ar dâp sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Ffoniwch ein llinellau cymorth am fwy o wybodaeth.

> Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar yr hawl i apelio.


F31167